Cofnodion Drafft Cyngor Cymuned Llanbedr 2.7.26

Presenoldeb

Eirwyn Thomas, Jane Taylor Williams, Annwen Hughes,Helen Johns, Robin Ward, Kevin Titley, Luise Vassey, Nia Jones

Ymddiheuriadau

Cyngh. Gwynfor Owen, John Evans,

Gair gan y Cadeirydd – Yn croesawu pawb I'r cyfarfod, ac estyn croeso arbennig I Steve Beech. Swyddog Cefnogi Cymunedol . Rol I chwilio am gyllid a chymorth I helpu Cymunedau fel Cyngor Cymuned I gael grantiau tuag at wahanol brosiectau.

3 prosiect gennym yn Llanbedr

1. Golau Cae Chwarae – wedi sicrhau grant o £5500 tuag at hwn. Golau trydan o Bryn Deiliog yn hytrach na golau solar bellach. Gwell yn yr hir dymor. Grant Gwynedd Ni gyda cydweithrediad street lighting Cyngor Gwynedd. Mae'r cais yma wedi ei ganiatau.
2. Plygu Gwrych cae chwarae – grant/cymorth Parc Cenedlaethol. Hwn wedi ei dderbyn
3. Gosod wet pore o amgylch offer cae chwarae.

Wedi derbyn 2 amcanbris am y gwaith yma. G.L.Jones a Play Wales. (Prisiau - - chwilio am £4000 I £6000

Cychwyn gyda Steve Beech. Yn fodlon edrych I mewn I wahanol grantiau ar gyfer hyn. Wedi bod yn gweithio ar brosiectau yn Harlech a Dyffryn Ardudwy. Y Cyngor yn falch bod grantiau ar gael, gan bod angen swm sylweddol ar gyfer y cae chwarae.

Nododd y Clerc hefyd bod angen spriwsio ychydig yma, gyda gwaith paentio yr offer ond heb gael pris ar gyfer hyn.

Nodwyd wedi I Steve adael yr ystafell y byddai'n dda cael mainc Newydd ger capel Moreia. Dim gwerth trwshio y 2 hen rai a dynnwyd oddi yno pan gosodwyd y cysgodfan bws.

Datgan Buddiant- dim

Unrhyw geisiadau cynllunio - dim

Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Diwethaf – drwy e bost fel rhai cywir. (Nododd AH nad yw'r Gwaith o lenwi tylla ar ffordd Cwm Bychan wedi ei wneud hyd yma, ond bod y lleoliadau wedi cael eu marcio gyda phaent gwyn. Nododd y Clerc yn yr un modd bod peth o ffordd Cwm Nantcol wedi ei farcio hefyd – hyd at y Capel).

Adroddiad Cyllid

Yn y banc diwedd Mehefin ydoedd £31417.56

Wedi talu y canlynol yn ystod mis Mehefin

| | |
|---|---|
| Parish Online | £90 TAW o £15) |
| Neuadd | £75 |

| | |
|---|---|
| Arfon Hughs | £95 |
| Colin Evans) | £225 |
| dyffryn iron design | £325 |
| Delyth Williams | £50 |

Mae yma anfoneb wedi dod gan Rich hefyd am waith trwshio y system gwresogi yn y Neuadd. Rydym wedi neilltuo £3000 yn y gyllideb. Anfoneb yma yn £521.70 gyda £86.95 = £434.75
Os da chi yn cytuno I dalu hwn ar ran y Neuadd yna bydd £2565.25 yn weddill yn y gyllideb ar eu cyfer. Pasiwyd bod hyn yn iawn.

Materion yn codi o'r Cofnodion

1. Y fynwent.
a) Bin brown – Y Clerc yn gwagio hwn yn achlysurol
b) Safle gwastraff- angen arwydd compost yma.
c) Ffordd o'r Vic – angen gwneud rhywbeth efo'r chwyn sydd yn dod o ardd Ardudwy. (Hwn wedi ei glirio gan rhywun!!)
d) Bod bedd Glynne Artro yn llawn o rosod – yn cymrud trosodd braidd I feddau gerllaw. Nododd Eirwyn Thomas y byddai yn cael sgwrs gyda un o'r Teulu.
e) Nododd Annwen Hughes bod yr hen fynwent yn fler ac angen ei thorri.
2. Cae Chwarae – grantiau – wedi bod yn llwyddiannus yn cael grant am olau trydan yn y cae chwarae.
3. Bod gwair yn y cae bach – cae offer plant wedi cael ei adael yn fler ar o l torri gwair. . Eirwyn Thomas wedi cysylltu ar gweithlu.
4. CCTV – e bost Sheena Thomas a beth yw'r diweddariad .? Gwaith yn barod I'w wneud yn awr. Y Clerc wedi ymateb I'r e bost – diogelwch y ffordd ac eiddo. Heddlu a'r Ysgol yn cymeradwyuo y syniad o gael camerau diogelwch.
5. Materion Cyngor Gwynedd – yn Dilyn isod -
6. Cattle grids Cwm Nantcol – rhain wedi eu gwneud yn sydun iawn. (Ail osod giatiau)
7. Tyllau ffordd – pot holes – dal heb wneud hyn Ond bod y ffyrdd wedi cael eu hail farcio.
8. Sewage Bryn Deiliog- bydd gwaith yn cael ei wneud yno yn fuan.
   Materion Eraill
9. Sul y Cofio - – Oes angen newid trefn hyn? Gwasanaeth y Gymuned yw hwn. Angen ail wampio ac ychwanegu enwau rhai a gollwyd – Moel Ddu a Glowlyn. A'r llanc sydd wedi ei gladdu ym mynwent Moreia.
10. CCTV camerau – pasiwyd I wneud hyn diwedd yr haf, oherwydd y traffic. Bod Rich yn cwblhau y trwyddedu.
11. Huchenfeld mis medi /. Wedi cael ar ddeall nad I'r Wyl Gwrw maent yn dod. Angen trefnu rhywbeth ar e u cyfer? Ar arian a neilltuuwyd yn y gyllideb. Nodwyd gan Helen Johns y bydd cyfarfod Huchenfeld yn digwydd yn fuan (6.7.26), a bydd mwy o fanylion yn deillio o hynny. Dyddiadau fydd 11 – 15 0 Fedi.
12. Bod dyddiadau Gwyl Gwrw ar y 18 – 19 0 Fedi.
13. Adroddiadau gan Cynghorwyr Sir.

Cynghorydd Gwynfor Owen – wedi ategu e bost parthed sefyllfa y drones, gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynghorydd Annwen Hughes –

1. Cwyn parthed skip a gwair heb ei dorri yn Bryn Deiliog. Cyfrifoldeb Adra.
2. Car gwyn parcio ger Llenyrch A hefyd car yn parcio ger Plas Newydd

3. Holi a oes yna unrhyw Newydd parthed gosod llinellau melyn ger Plas Newydd.
4. Nododd bod y gwaith cynnal wal ger Cwm Rafon wedi ei gwblhau.
5. Gweld bod y polion yn cael eu tynnu gyferbyn a'r Neuadd.
6. Angen tynnu y torchau oddi ar y gof golofn. Edrychy n fler gan bod yr haul wedi gwanhau y lliw.
7. Gellir gosod pot blodau ar y gof golofn yn lle y torchau?
8. Y Clerc yn nodi bod y polion fflagiau angen sylw. Bod cwmni arbennigol yn gallu dod I archwilio rhain. Cytunwyd I gysylltu a hwy.
14. DRONES – nifer o gwynion wedi dod I law parthed rhain. Rhaid cofnodi safle, dyddiad . Bydda lluniau hefyd yn dda. Y cyfeiriad e bost i anfon cwynion yw

services@snowdoniaaerospace.com

15. E bost Mark Williams parthed ffordd Mochras ac ochr yr afon ffordd Mochras. Chain link ac ati. Mae'r gwaith wedi ei wneud ond yn fler iawn. Tybed o s mae gwaith dros dro yw hyn?

Unrhyw Fater Arall

1. Nia Jones yn falch ac yn hapus efo'r gwaith parcio anabl yn y Maes Parcio Neuadd.
2. Nododd Luisse bod angen torri ochr y ffordd gyferbun a Awelfryn.
3. Bwrdd Dwr yn gwneud Gwaith ger Capel Bach.
4. Luisse yn holi parthed pwyllgor llwybrau. Heb gael un ers tro byd.
5. Nododd y Clerc ei bod wedi cael enw arall ar gyfer torri llwybrau, ond bod Tom Edwards wedi cael cynnig y gwaith eto eleni.
6. Gwasanaeth zoom a bybrid – bod Gwynfor Owen a Eirwyn Thomas wedi bod yn y Neuadd ryw bnawn sadwrn yn arbrofi gyda hyn, a'r teclus syddgan Gwynfor I hwyluso trefniant. Bod GO yn fodlon I ni fenthyg y teclun am £25 y tro os bydd yn llewyrchus yn y cyfarfod Medi. Neu gall y Cyngor brynu un ar gost o tua £500

Mae I'w gael ar Amazon Toucan medd AH.Edrych I mewn I hyn a hefyd a fydda modd cael grant tuag at hyn? Cysylltu efo Steve Beech parthed hyn.

Gallwn roi y canlynol am grant?

Panel gwybodaeth Ffynnon Enddwyn. Hyn heb ei drafod, ond mae gwir angen rhyw wybodaeth yma. Yr hen un wedi malu, a bod rhywun wedi sgwennu ar lechen y cyfieithiad saesneg.

Mainc Newydd ger Capel Moreia.

Offer Toucan y teclun hybrid. Hefyd y wet pour ar gyfer cae chwarae.